



**251 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**252 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2019 yn rhai cywir.

**253 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**254 CAIS: 18/1346**

**Datblygiad preswyl arfaethedig 120 uned, gyda gwaith tirlunio a pheirianeg gysylltiedig, hen safle Ysgol Gyfun Blaengwawr, Club Street, Aberaman, Aberdâr.**

**PENDERFYNWYD** gohirio'r cais er mwyn cynnal ymweliad safle gan y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu i ystyried topograffi'r safle a'r materion a godwyd gan y gwrthwynebwyr.

**255 CAIS: 18/1411**

**Newid defnydd yr adeilad presennol i ddarparu 14 fflat, adeiladu tri thŷ ac un byngalo, a gwaith cysylltiedig gan gynnwys tirlunio, mynediad a pharcio ceir, hen safle Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant, Stryd yr Ysgol, Llantrisant.**

**PENDERFYNWYD** gohirio'r cais er mwyn cynnal ymweliad safle gan y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu i ystyried yr effaith bosibl ar ardal gadwraeth Llantrisant, diogelwch ar y priffyrdd a pharcio.

**256 CAIS: 18/1264**

**Newid defnydd o Ganolfan Gymunedol (D2) i Siop (A1) a Thŷ Golchi (Sui Generis) (derbyniwyd cynlluniau diwygiedig 07/02/2019), hen Ganolfan Gymuned Penrhiw-fer, Ashdale Road, Penrhiw-fer, Tonypanyd.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr Sundar (Ymgeisydd)
- Mr Phil Thomas (Gwrthwynebydd)

Bu Mr Sundar (Ymgeisydd) yn gweithredu'r hawl i ymateb i sylwadau'r gwrthwynebydd

Amlinellodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu gynnwys llythyr 'hwyr' a dderbyniwyd gan Mr Sundar, a oedd yn ceisio mynd i'r afael â phryderon a godwyd gan yr adran Priffyrdd a'r gwrthwynebydd ynghylch diffyg parcio.

Parhaodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu drwy gyflwyno'r adroddiad ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** Aelodau wrthod y cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**257 CAIS: 18/1258**

**Dymchwel yr adeilad presennol a chodi 34 o unedau preswyl fforddiadwy, llwybr mynediad, maes parcio ceir, tirlunio a gwaith cysylltiedig, Adeiladau Heddfan RhCT, Rhodfa llan, Rhydfelen, Pontypridd.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr Jon Hurley (Asiant)
- Mr G. Churches (Gwrthwynebydd)
- Mrs Christine Thomas (Gwrthwynebydd)

Nododd y Pwyllgor nad oedd Mr Ross Parfitt (Gwrthwynebydd) na Mrs Kay Parfitt (Gwrthwynebydd) a oedd wedi gofyn am annerch yr Aelodau ar y cais yn bresennol i wneud hynny.

Arferodd yr Asiant, Mr Jon Hurley, yr hawl i ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebwyr.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig.

Siaradodd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod o'r Cabinet ar faterion y Priffyrdd hefyd ar y cais a chyflwynodd ei wrthwynebiadau o ran diogelwch ar y priffyrdd.

Amlinellodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu gynnwys llythyr 'hwyr' a dderbyniwyd gan yr asiant, a oedd yn ymateb i bryderon a godwyd gan yr Aelod Lleol ac yn cynnwys Datganiad ynglŷn â Rhagolygon Teithio.

Parhaodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu drwy gyflwyno'r adroddiad ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** Aelodau wrthod y cais uchod yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu gan fod yr Aelodau o'r farn nad oedd y cynnig yn foddhaol o ran mynediad a diogelwch ar y priffyrdd. O ganlyniad i hynny, caiff y mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

258 CAIS: 19/0015

**Ailddatblygu Sgwâr Rhos (Sgwâr Guto) i gynyddu nifer y lleoedd parcio ceir o rif 23 i rif 30, Sgwâr Rhos (Sgwâr Guto), Stryd Rhydychen, Aberpennar.**

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei gefnogaeth i'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais uchod i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

259 **GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 11.03.18 – 22.03.19.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.10 pm**

**Y Cyngorydd G Caple  
Cadeirydd.**